# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Ionawr 2024

Amser: 13.30 - 15.42

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13670

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Adam Price AS<br>James Evans AS<br>Luke Fletcher AS<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 2.1 SL(6)423 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 3.1 SL(6)419 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)436 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4)

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(6)420 – Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.4 SL(6)426 – Rheoliadau Adeiladu (Y Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu) (Cofrestru, Sancsiynau ac Apelau) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.5 SL(6)427 – Rheoliadau'r Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu (Taliadau) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.6 SL(6)425 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygio) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 4.1 SL(6)424 – Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 5.1 SL(6)422 – Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 6.1 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan Weinidog yr Economi.

### 6.2 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

### 6.3 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Grŵp Rhyngweinidogol ar Waith a Phensiynau

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a’r llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip.

### 6.4 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth oddi wrth y Prif Weinidog: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a’r ohebiaeth gan y Prif Weinidog.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y

Gweinidog Newid Hinsawdd.

### 7.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Y Bil Seilwaith (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan

y Gweinidog Newid Hinsawdd.

### 7.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith: Y Bil Seilwaith (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan

y Gweinidog Newid Hinsawdd i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

### 7.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Cynllun Masnachu Allyriadau y DU

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan

y Gweinidog Newid Hinsawdd.

### 7.5 Gohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 7.6 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Weinidog yr Economi a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am ragor o wybodaeth.

### 7.7 Gohebiaeth rhwng y Fforwm Rhyngseneddol a'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth rhwng y Fforwm Rhyngseneddol a'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol

### 7.8 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip i'r Llywydd: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at y Llywydd.

### 7.9 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog i Lywodraeth y DU: Ffyniant Bro

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Prif Weinidog i Lywodraeth y DU.

### 7.10 Gohebiaeth â Llywodraeth y Deyrnas Unedig: Defnyddio pwerau o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor ei ohebiaeth â Llywodraeth y DU a'i hymateb.

### 7.11 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

## 8 Cynnig i ethol Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22 ar gyfer eitem agenda 11

Cafwyd enwebiad ar gyfer Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22, a chytunodd y Pwyllgor ar yr enwebiad. Gwnaeth y Pwyllgor ethol Alun Davies AS yn Gadeirydd dros dro ar gyfer eitem 11 o’r cyfarfod.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 10 Cytundebau rhyngwladol

Trafododd y Pwyllgor a chytunodd ar ei adroddiad drafft ar y cytundebau rhyngwladol a drafodwyd yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2023.

Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried y cytundeb ar gyfer darparu partneriaeth lloches i gryfhau ymrwymiadau rhyngwladol a rennir ar amddiffyn ffoaduriaid a mudwyr rhwng y DU a Rwanda.  Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a thynnu'r cytundeb i sylw'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a Phwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi. Cytunodd hefyd i drafod ei adroddiad drafft ar y cytundeb yn ei gyfarfod nesaf.

## 11 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Adroddiad drafft

Yn unol â'r cynnig a dderbyniwyd gan y Pwyllgor, roedd Alun Davies yn bresennol i weithredu fel Cadeirydd dros dro ar gyfer eitem 11 o’r agenda.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Huw Irranca-Davies AS, Adam Price AS a Samuel Kurtz AS. Croesawodd y Pwyllgor Carolyn Thomas AS, Luke Fletcher AS a James Evans AS fel dirprwyon.

Gwnaeth y Pwyllgor drafod a chytuno ar ei adroddiad drafft ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), yn amodol ar rai mân newidiadau a fyddai'n cael eu cwblhau drwy e-bost.